



<b>Presennol:</b>	Huw Jones John Davies Siân Lewis Elan Closs Stephens Hugh Hesketh Evans Guto Harri	(Cadeirydd) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) – linc ffôn (Aelod o'r Awdurdod) – linc ffôn
<b>Staff S4C:</b>	Ian Jones Elin Morris Gwyn Williams Amanda Rees Phil Williams Bethan C. Williams Steve Thomas Gwenllian Griffiths	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) (Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Ymgynghorydd Strategaeth a Pholisi) – eitem 6 (Ymgynghorydd) – eitem 6

#### **MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion cyfarfod 405 a Materion yn Codi**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 405 (a gynhaliwyd ar 09.02.17) a nodwyd y materion canlynol.

Cofnod 6.3.1 – Nodwyd fod 1.5 aelod o staff yn gweithio ar y cynllun data, ond eu bod hefyd yn gweithio ar brosiectau eraill. Penderfynwyd addasu'r cofnod i nodi fod "1.5 aelod o staff yn gweithio yn **rhannol** ar y cynllun data".

Cymeradwywyd y cofnodion gan ymgorffori'r newid uchod.

3. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau a Materion yn codi**

Cyflwynwyd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau er gwybodaeth.

**Penderfynwyd chwynnu'r Pwyntiau Gweithredu hanesyddol.**

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

#### **Adolygiad**

Nododd ei fod ef a PW wedi cyfarfod swyddogion DCMS sy'n gyfrifol am drefniadau'r Adolygiad, ond hyd yma nad oedd cylch gorchwyl neu enw'r adolygydd wedi eu cyhoeddi.

Nodwyd nad oedd amserlen wedi ei gytuno eto ar gyfer yr adolygiad, ond y byddai angen bod yn barod i ymateb i'r cyhoeddiad pan ddaw, ac y gallai gyhoeddiad gael ei wneud yn fuan.

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at drafodaethau gyda swyddogion DCMS parthed cyfraniad ariannol DCMS i S4C yn ystod 2017-18 a chyfnod yr Adolygiad]

Nododd y Cadeirydd y byddai angen delio gyda'r mater amseru a llifariannu, ond y bydd dal angen croesawu'r cyfraniad ariannol y mae S4C wedi bod yn gofyn amdano. Bydd hwn yn rhoi sefydlogrwydd ariannol yn ystod cyfnod yr adolygiad, gan alluogi'r adolygydd i ystyried anghenion ariannol y dyfodol yn hytrach na'r flwyddyn gyfredol.

## Canolfan Yr Egin

Cyfeiriwyd at benderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnig cyfraniad grant o £3m i PCDDDS ar gyfer datblygu Canolfan Yr Egin a holwyd beth oedd arwyddocâd y penderfyniad i'r Prosiect Adleoli. Esboniwyd fod cadarnhad y cais grant yn newyddion da iawn ar gyfer canolfan yr Egin, ond nad oedd yn effeithio ar y cynllun Adleoli oherwydd y warant a roddwyd i S4C gan PCDDDS yn 2014.

Nodwyd bod elfen o ddryswch wedi bod yn gyhoeddus, gyda rhai rhanddeiliaid yn holi a oedd S4C ei hun wedi derbyn £3m gan y Llywodraeth, neu a oedd cynllun Dinas Rhanbarth Bae Abertawe wedi cyfrannu £3m at gynllun Egin I.

Nodwyd nad oedd cynllun Egin I, sef y ganolfan a fydd yn gartref i bencadlys S4C, yn ddibynnol yn ariannol ar brosiect annibynnol PCDDDS ar gyfer datblygu Egin II, ac nad oedd S4C yn rhan o gynllun Egin II.

Roedd cyhoeddiad grant y Llywodraeth yn golygu fod datblygiad Yr Egin yn parhau yn unol ag amserlen PCDDDS ar gyfer y prosiect. Roedd y Brifysgol yn gobeithio lawnsio'r datblygiad ymhen y mis, ac roedd S4C ar ddeall y byddai Kier yn dechrau ar y gwaith adeiladu erbyn canol fis Mawrth.

Holwyd a ddylid ceisio unrhyw sicrwydd pellach parthed trefniadau ariannol y prosiect oddi wrth PCDDDS. Esboniodd IHJ fod S4C wedi derbyn cadarnhad ar lafar oddi wrth yr Is-Ganghellor fod cynllun Egin I yn parhau yn unol â'r cytundeb presennol. Awgrymwyd y byddai'n ddymunol i dderbyn y sicrwydd hyn oddi wrth PCDDDS ar ffurf llythyr.

Holwyd a ddylid ceisio unrhyw sicrwydd ariannol, tu hwnt i ymrwymiad di-droi-nol o Fawrth 2014. Esboniwyd fod ymrwymiad PCDDDS yn ddigonol ac mai mater iddyn nhw fydd neilltuo'r arian sy'n weddill ar gyfer talu costau'r prosiect.

[Crynodeb: Penderfynwyd y dylai IHJ ddanfôn llythyr i Is-Ganghellor PCDDDS i gadarnhau nad yw cynllun Egin I yn ddibynnol yn ariannol ar gynllun Egin II.]

Nododd IHJ ei fod yn siomedig gyda safon y newyddiaduriaeth am bwnc Yr Egin, ac roedd wedi cyfleu ei siom i Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru.

## Materion Gwleidyddol

Roedd y Cadeirydd ac IHJ wedi cyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor y Cynulliad wrth iddynt baratoi ar gyfer eu hymateb i adolygiad S4C.

## Penderfynwyd darparu cofnod o sesiwn dystiolaeth HJ ac IHJ i Bwyllgor y cynulliad i'r Aelodau.

### Penodiadau i'r Awdurdod

Rhoddyd diweddiad ar lafar parthed y broses o geisio aelodau newydd ar gyfer yr Awdurdod. Yn anffodus nid oedd llawer o gynnydd wedi ei gyflawni, ac roedd amserlen DCMS ar gyfer hysbysebu'r swyddi wedi newid ar sawl achlysur. Roedd amserlen newydd wedi ei gytuno a disgwylir y bydd y swyddi'n cael eu hysbysebu'r fuan. Nodwyd fod adran penodiadau cyhoeddus DCMS yn canolbwyntio ar broses benodiadau Bwrdd Unedol newydd y BBC.

Nodwyd ei bod yn annhebygol iawn y byddai aelodau newydd wedi eu penodi cyn mis Gorffennaf.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dymor aelodaeth ECS o'r Awdurdod, gan nodi y bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn dod i ben ym mis Ebrill, ac felly bod angen cadarnhau gyda DCMS eu dealltwriaeth parthed aelodaeth Elan. Roedd Elan wedi ei phenodi'n wreiddiol yn rhinwedd ei swydd fel Ymddiriedolwr y BBC yn unol â darpariaethau Cytundeb Hydref 2011 rhwng S4C, Ymddiriedolaeth y BBC a DCMS, ac yna ymestynnwyd ei thymor aelodaeth tan Hydref 2018. Er ei bod wedi ei phenodi yn unol â chytundeb 2011, nid yw'r llythyr penodi yn cyfeirio at aelodaeth Ymddiriedolaeth y BBC.

Diolchodd Elan i'r Cadeirydd am ei eiriau caredig a nododd ei bod yn gwerthfawrogi'r angen am aelodau newydd a syniadau newydd o fewn unrhyw gorff, ond yn ogystal yn deall yr angen am sefydlogrwydd i S4C yn ystod y cyfnod presennol. Byddai'n ffrind triw i S4C naill ai fel Aelod neu fel arall.

Holwyd am ofynion cworwm yr Awdurdod yn ystod y cyfnod cyn penodi Aelodau newydd ac esboniwyd fod yr Awdurdod eisoes wedi diweddarau'r Rheolau Sefydlog ac wedi lleihau'r cworwm o 4 i 3 ar gyfer y cyfnod hyd y bydd aelodau newydd wedi eu penodi ac wedi ymgymryd â'u dyletswyddau.

Roedd y Cadeirydd yn poeni am y baich fydd yn cael ei ysgwyddo gan yr Aelodau wrth geisio cynnal rhaglen waith yr Awdurdod a'i bwyllgorau gyda dim ond 5 aelod.

### **Noson Gwylwyr Lerpwl**

Adroddwyd fod noson gwylwyr Lerpwl wedi bod yn noson lwyddiannus iawn, gyda 60 o aelodau'r gynulleidfa wedi mynychu'r noson a thrafod arlwy S4C. Roedd gwerthfawrogiad amlwg i'r ddarpariaeth, ac awydd i weld rhagor o Gymry alltud yn cael eu portreadu ar y gwasanaeth.

Bydd crynodeb o drafodaethau'r noson yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynnwys yn ei gyfarfod ar ddiwedd y mis.

### **Cytundeb ariannol newydd gyda'r BBC**

Rhoddyd diweddiad ar lafar parthed trafodaethau gyda'r BBC am drefniant newydd i olynu'r Cytundeb Gweithredu presennol. Roedd trafodaethau cadarnhaol yn parhau gyda swyddogion y BBC yn Llundain, gyda'r bwriad o gyflwyno cytundeb drafft neu *Heads of Terms* i'r Awdurdod a'r Bwrdd Unedol newydd pan fydd wedi ei sefydlu ar gyfer eu cymeradwyaeth. Roedd ystyriaeth hefyd wedi ei roi i gynnwys holl elfennau'r bartneriaeth yn y cytundeb newydd, gan gynnwys ymrwymiad ariannol y 10 awr, sef £19.4m ar hyn o bryd, trefniant yr iPlayer a chydweithio ar brosiectau creadigol a phrosiectau gwerth am arian.

Esboniwyd mai'r cam nesaf fyddai cytuno ar amserlen fanwl ar gyfer cwblhau'r gwaith, gan gynnwys cytuno ar strwythur y berthynas a'r math o adrodd ac atebolrwydd a fyddai'n briodol, llunio'r cytundeb drafft, trefnu cyfarfod ar gyfer Cadeiryddion S4C a'r BBC er mwyn trafod y berthynas a'r cytundeb arfaethedig ac yna cyflwyno'r trefniant i Fwrdd yr Awdurdod a Bwrdd Unedol y BBC ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am atebolrwydd ariannol ar gyfer gwariant arian Ffi'r Drwydded, ac opsiynau o ran sut y gellid darparu atebolrwydd priodol i'r BBC]

Holwyd am drefniadau darpariaeth rhaglenni'r 10 awr a'r cynllun rhaglenni ar gyfer 2017-18. Esboniodd AR ei bod wedi cynnal trafodaethau cadarnhaol gyda BBC Cymru a'u bod wedi llunio cynllun rhaglenni drafft.

Nodwyd y bydd angen i'r Awdurdod gymeradwyo'r Cynllun Rhaglenni. Roedd hyn fel arfer yn digwydd yr un pryd ac asesu perfformiad y ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol, ond oherwydd amserlen waith yr Ymddiriedolaeth cyn iddo ddirwyn i ben, roedd cais wedi dod gan yr Ymddiriedolaeth i dderbyn ymateb yr Awdurdod i'r Cynllun ar gyfer ei gyfarfod ym mis Ebrill.

**Penderfynwyd dirprwyo'r hawl i'r Pwyllgor Cynnwys i gymeradwyo Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2017-18 drwy gyfrwng e-bost ac i ystyried unrhyw faterion perthnasol o ran ymateb i berfformiad arlwy'r Cynllun Rhaglenni yn ystod 2016-17.**

**Cytundeb Gweithredu newydd gyda'r BBC - Penderfynwyd y dylid trefnu cyfarfod ar gyfer y Cadeirydd a Syr David Clementi, ac y dylid anelu i gytuno ar amserlen ar gyfer cymeradwyo Heads of Terms gyda'r Bwrdd Unedol pan fydd wedi ei sefydlu.**

## 5. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

## **Cyllideb 2017-18 a Chynllun Ariannol 5 mlynedd**

Cyflwynodd ShW y Gyllideb drafft ar gyfer 2017-18 ynghyd â'r Cynllun Ariannol 5 mlynedd ar gyfer y cyfnod 2017-18 hyd 2021/22.

Esboniodd fod costau perthnasol y cynllun ariannol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyfradd chwyddiant o 3%.

Nodwyd y byddai angen sicrhau fod y Cynllun Ariannol 5 mlynedd a dogfen Gweledigaeth S4C yn cyd-fynd â'i gilydd ac y bydd modd esbonio i'r Adolygydd sut y mae'r Weledigaeth a'r gofyn i lunio cynllun ariannol sy'n seiliedig ar yr adnoddau presennol yn cyd-fynd.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am egwyddorion a phwrpas y Cynllun Ariannol, a chafwyd trafodaeth am allu S4C i lunio cynllun ariannol fydd yn cyflawni'r weledigaeth greadigol heb adnoddau ariannol ychwanegol]

Nodwyd y dylid sicrhau fod anghenion y strategaeth cynnwys yn glir o fewn y cynllun ariannol. Byddai'n glir fod angen mwy o gyllid ar S4C er mwyn gwireddu ei weledigaeth.

Nodwyd fod y cynllun ariannol drafft presennol yn cynnwys cynnydd yn y dididend o'r Gronfa Fasnachol er mwyn osgoi diffyg ar ddiwedd y cyfnod.

Cyfeiriwyd at y balansau i'w dwyn ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn a drafodwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror a phwysleisiwyd yr angen i osgoi canfyddiad anghywir fod tan-wariannau o fewn y gyllideb.

Holwyd beth yw'r prif bwysau a risgiau sy'n berthnasol i'r gyllideb drafft. Esboniwyd fod nifer o elfennau'n creu risgiau, gan gynnwys oedran rhai darnau o offer technegol lle nad oes bwriad i'w hadnewyddu oherwydd amserlen arfaethedig y TSA a chyflwr to adeilad y Bloc Technegol. Roedd swyddogion yn ceisio ymestyn oes elfennau o'r fath nes y bydd S4C yn gwerthu'r adeilad er mwyn ceisio osgoi gwario arian sylweddol ar gynnal a chadw ond fod hyn yn creu risgiau o ran cynaladwyedd yr adeilad.

Roedd effaith chwyddiant hefyd yn creu pwysau ar y gyllideb. Mae nifer o gytundebau, megis cytundebau darlledu a dosbarthu Arqiva a chytundebau ymchwil megis BARB yn cynnwys darpariaethau chwyddiant.

Cyfeiriwyd at gostau'r prosiectau Adleoli a Chydleoli ac esboniwyd y byddai diweddariad manwl yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu.

## **Cymeradwywyd Cyllideb 2017-18.**

**Penderfynwyd y dylid addasu'r Cynllun Ariannol 5 Mlynedd, gan gadw'r gyllideb cynnwys yn sefydlog. ond hefyd paratoi model fyddai'n dangos y gyllideb yn balansio wrth leihau'r gyllideb cynnwys**

**Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol i ddangos impact chwyddiant ar gytundebau perthnasol (e.e. cytundebau Arqiva a BARB) yn y cynllun 5 mlynedd.**

## **Amcanion Gweithredol 2016-17 – Adroddiad Cynnydd**

Cyflwynodd IHJ yr adroddiad a oedd yn nodi statws cyflawniad Amcanion Gweithredol 2016-17. Esboniodd fod yr adroddiad yn dilyn trefn yr adroddiad a gyflwynwyd y llynedd. Roedd yn awyddus i gyflwyno crynodeb o'r adroddiad i'r staff er mwyn iddynt weld pa gynnydd sydd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ac ystyried sut i gyflwyno crynodeb o'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol.

Cafwyd trafodaeth am yr elfennau canlynol yn benodol.

### **1.5 – Pryniannau**

Holwyd a oedd ystyriaeth yn cael ei roi i bwrpas pryniannau o fewn yr amserlen, a nodwyd yn benodol yr angen i sicrhau fod pryniannau'n cyfrannu at y Strategaeth Cynnwys ac nid yn llenwi oriau'n unig.

### **1.8 – Polisi Cyd-gynhyrchu**

Nodwyd fod Canllawiau wedi eu llunio, ond nad oedd Polisi wedi ei gymeradwyo hyd yma. Esboniodd AR ei bod yn awyddus i ystyried cyd-gynhyrchu mewn ffyrdd ehangach, gan gynnwys pryniannau a chyd-gynhyrchu fformatau.

### **1.6 - Cydweithio gyda'r sector addysg**

Holwyd a ddylai'r amcan gyfeirio at CBAC yn hytrach nac Awdurdodau Addysg Lleol. Esboniwyd fod yr amcan yn cwmpasu trafodaethau gydag ystod eang o bartneriaid ym maes addysg, gan gynnwys y llywodraeth, sefydliadau addysgiadol ac awdurdodau addysg lleol. Roedd trafodaethau'n parhau gyda'r holl bartneriaid, ond yn anffodus nid oedd y cwricwlwm newydd wedi ei gymeradwyo hyd yma, ac felly roedd hyn yn creu oedi o ran gallu cytuno ar bartneriaethau a phrosiectau addysg.

Nododd AR fod bwriad yn yr Amcan Gweithredol ar gyfer 2017-18 i ystyried maes addysg mewn ffordd ehangach, ac yn debycach i Channel 4.

### **1.10 - Darpariaeth ddigidol newydd**

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am elfennau o'r ddarpariaeth ddigidol newydd]

### **2.4 - Cofrestru cyn gwylio S4C**

Nodwyd fod y cynllun i lansio trefn gofrestru ar gyfer S4C Arlein yn parhau ar waith, gyda'r gobaith i'w gyhoeddi yn dilyn lansio trefn gofrestru'r BBC ar gyfer iPlayer.

Diolchwyd i IHJ am yr adroddiad.

### **Amcanion Gweithredol 2017-18**

Cyflwynodd IHJ yr amcanion gweithredol ar gyfer 2017-18 a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

### **Penodi Uwch Gynhyrchwyr**

Nododd AR ei bod yn bwriadu penodi nifer o uwch gynhyrchwyr er mwyn cynyddu safon nifer o gyfresi, a rhoi hwb newydd i rai hen gyfresi ar draws nifer o genres.

### **6.2 – Cynllun Pobol**

Nododd IHJ ei fod wedi derbyn cyngor oddi wrth yr Ymgynghorydd Personél newydd y dylid cyflwyno Cynllun Pobol ar gyfer gweithlu S4C, ac roedd yn anelu i gyflwyno cynllun erbyn diwedd 2017.

### **Cymeradwywyd yr Amcanion Gweithredol ar gyfer 2017-18.**

#### **Trafodaethau gyda'r BBC parthed cytundeb y TSA**

[Crynodeb: Cyflwynodd IHJ ddiweddariad parthed y trafodaethau gyda BBC Cymru am gytundeb arfaethedig y TSA.

Esboniodd fod cynnydd ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod wrth drafod gyda BBC Cymru, ond fod nifer o feysydd yn parhau lle nad oedd cyd-ddealltwriaeth yn bodoli hyd yma. ]

Diolchodd y Cadeirydd i IHJ am y diweddariad ac i'r Aelodau am y drafodaeth a'r arweiniad.

#### **Adnodd ar gyfer delio gyda cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth**

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at y llwyth gwaith sy'n cael ei greu gan faterion yn cynnwys ceisiadau rhyddid gwybodaeth a materion cysylltiedig]

Roedd y ceisiadau diweddar yn gymhleth gan eu bod yn ymwneud â llawer o wybodaeth sydd wedi ei ddarparu gan drydydd partïon

#### **Diweddariad Prosiect Loteri Cymru**

Cyfeiriodd EM at e-bost a ddanfonwyd at yr Aelodau yn nodi un newid y mae'r Comisiwn Elusennol wedi ei awgrymu o ran y criteria ar gyfer dosrannu grantiau, sef bod yn rhaid i'r cyrff sy'n gwneud ceisiadau i'r loteri ac sy'n derbyn arian fod yn elusennau cofrestredig. Roedd y canllawiau dyrannu grantiau wedi eu darparu'n wreiddiol i'r Awdurdod er gwybodaeth, ac felly

roedd ymateb y Comisiwn hefyd yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth.

## 6. **Adolygiad 2017**

Cyflwynodd IHJ a ST ddiweddariad parthed dogfen Gweledigaeth S4C a gyflwynwyd yn wreiddiol i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Chwefror. Nodwyd fod yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r ddogfen yn ymddangos yn dynn, ac mai'r bwriad oedd lansio'r ddogfen cyn diwedd fis Mawrth.

Esboniwyd mai'r bwriad oedd cyhoeddi cyn diwedd y mis er mwyn osgoi cyfnodau gwyliau San Steffan a Bae Caerdydd.

Holwyd pam fod angen lansio'r ddogfen cyn gweld Cylch Gorchwyl yr adolygiad neu gyhoeddi enw'r adolygydd. Esboniwyd fod angen lansio'r ddogfen yn fuan er mwyn rhoi cyfle i S4C gyflwyno'i weledigaeth a rhoi cyfle i randdeiliaid ei drafod yn eang. Yn ddelfrydol fe fyddai'r lansiad yn digwydd ar ôl cyhoeddi'r cylch gorchwyl, ond roedd angen symud ymlaen a chymeradwyo'r ddogfen yn y cyfarfod hwn.

[Crynodeb: Diolchodd yr Aelodau am fersiwn ddiwygiedig y ddogfen a chafwyd trafodaeth am gynnwys y ddogfen a nodwyd nifer o sylwadau i'w hystyried wrth barhau i ddatblygu'r ddogfen]

Nodwyd ei bod yn anodd i'r Awdurdod ystyried a yw'r ddogfen yn ateb cwestiynau'r adolygiad heb weld cylch gorchwyl yr Adolygiad. Trafodwyd y risg o gyhoeddi'r ddogfen cyn cyhoeddi'r Cylch Gorchwyl ac enw'r adolygydd, a chydabuwyd fod elfen o risg o wneud hyn. Fodd bynnag, esboniwyd fod risg hefyd o ran colli'r cyfle i gyflwyno gweledigaeth S4C mewn da bryd ar gyfer llywio'r drafodaeth am wasanaeth S4C.

Nodwyd felly y dylid parhau i anelu i gyhoeddi'r ddogfen cyn gynted ag sy'n bosibl, gan dderbyn fod yna elfen o risg.

Esboniodd AR y byddai'n cyflwyno'r Strategaeth Cynnwys a Digidol newydd i'r sector gynhyrchu mewn cyfres o ddigwyddiadau ar 20-22 Mawrth ac yna bydd fersiwn gryno o'r strategaeth yn cael ei chyhoeddi ar wefan S4C. Nodwyd pwysigrwydd sicrhau fod y Weledigaeth a'r Strategaeth yn cyd-fynd gyda'i gilydd.

Awgrymwyd y gellid cymharu tariffau S4C gyda darlledwyr eraill er mwyn rhoi cyd-destun i waith gwerth am arian diweddar a nodwyd y dylid cyfeirio at waith sylweddol S4C ym maes effeithlonrwydd a gwerth am arian er mwyn dangos fod y gwaith hwn eisoes wedi ei gyflawni, ac nad oedd lle ar ôl ar gyfer arbedion mawr o fewn y ddarpariaeth bresennol.

Roedd cytundeb ymysg yr Aelodau nad oedd y cyfanswm incwm presennol yn ddigonol ar gyfer cyflawni Gweledigaeth S4C, ac y dylid cyflwyno'r achos ar gyfer arian ychwanegol er mwyn cyflawni'r weledigaeth, ac esbonio y byddai dim cynnydd hefyd yn golygu y byddai angen i S4C wneud penderfyniadau anodd yn y dyfodol wrth i gostau a chwyddiant gynyddu.

Cafwyd trafodaeth am faint y buddsoddiad ychwanegol y dylid ei geisio yn y ddogfen. Roedd yr Awdurdod o'r farn na ddylid manylu'n ormodol ar y ffigyrau, a chynnig ystod eang o opsiynau fyddai'n cyfeirio at faterion megis cyfresi unigol neu lwyfannau digidol unigol. Yn hytrach dylid cyflwyno achos dros fuddsoddiad ychwanegol er mwyn galluogi S4C i gyflawni'r Strategaeth Cynnwys newydd.

[Crynodeb: Nodwyd y dylid sicrhau fod naratif dogfen y Weledigaeth a'r Cynllun Ariannol 5 mlynedd yn cyd-fynd o ran y cais am arian ychwanegol]

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am y drafodaeth a'r arweiniad strategol o ran cynnwys dogfen Gweledigaeth S4C. Nodwyd y byddai angen ymgorffori sylwadau'r Aelodau yn y ddogfen drafft a sicrhau cyfieithiad cywir a naturiol, a chylchredeg fersiwn ddiwygiedig o'r ddogfen Saesneg i'r Aelodau.

### **Cymeradwywyd dogfen Gweledigaeth S4C yn amodol ar faterion a nodwyd**

## MATERION CHWARTEROL

### 7 **Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 3, 2016-17**

Cyflwynodd GW yr Adroddiad Cyfathrebu ar gyfer Chwarter 3 2016-17 a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Cafwyd sylw sylweddol i berfformiadau Cantata Memoria yng Nghaerdydd ac Efrog Newydd yng Nghymru a thu hwnt, gyda gwerthfawrogiad i gefnogaeth S4C i'r prosiect.

Er bod Taith Sioe Nadolig Cyw yn parhau'n boblogaidd gyda'r gynulleidfa, roedd bwriad i ystyried opsiynau amgen ar gyfer flwyddyn nesaf, gan ystyried partneriaethau newydd, fformat y sioe ac anghenion ariannol ac incwm y sioe.

### 8. **Adroddiad o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror**

Cyflwynwyd crynodeb ysgrifenedig o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror. Nodwyd fod crynodeb ar lafar wedi ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror.

### 9. **Trafod rhaglenni'r mis aeth heibio**

Penderfynwyd gohirio'r drafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio tan fis Ebrill.

### 10. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr ac Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr. Nodwyd nad oedd unrhyw gwynion wedi eu derbyn gan yr Adran Gyfathrebu oedd angen eu dwyn i sylw'r Awdurdod.

### 11. **Ystyried Rhaglen Waith yr Awdurdod ar gyfer 2017 – 18**

Cyflwynwyd diweddariad i Raglen Waith yr Awdurdod 2017 – 18 er gwybodaeth.

### 12. **Unrhyw Fater Arall**

#### **Cyfarfod y Bwrdd, fis Gorffennaf**

Nodwyd nad oedd llety ar gael i'r Aelodau yng Nghaerdydd ar gyfer cyfarfod yr Awdurdod ym mis Gorffennaf. **Penderfynwyd cynnal cyfarfod Gorffennaf naill ai yn Swyddfa Caernarfon, neu leoliad arall. Awgrymwyd y gellid cynnal cyfarfod y Bwrdd Masnachol yn Swyddfa Caernarfon hefyd.**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau, 6 Ebrill 2017 yng Nghaerdydd